



Eich cyf/Your ref: PO/JB/606/2025
Ein cyf/Our ref: PO/JB/WQ97615

25 Tachwedd 2025

Annwyl Joel,

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig i'r Senedd (cyf WQ97615). Ymddiheuriadau am beidio ag ateb yn brydlon.

Fe wnaethoch chi ofyn imi amlinellu sut y cyfrifwyd yr amcangyfrif o gost flynyddol gyfartalog o £62 ar gyfer HMOs, a nodir yn nhabl 3b yn y memorandwm esboniadol ar gyfer Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru). Cyfrifwyd y ffigur gan yr economegwyr annibynnol a ymgwymerodd â'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr asesiad effaith rheoleiddiol, yn seiliedig ar eu gwybodaeth am y sector. Mae'n cynnwys costau cyfartalog blynyddol o gynnal ac adolygu asesiad risg tân ac ymateb i gwynion preswylwyr a cheisiadau am wybodaeth dros gyfnod o 10 mlynedd.

Mae'n bwysig nodi ei fod yn amcangyfrif o gost ychwanegol, hy cost sy'n deillio o'r Bil, yn ychwanegol at yr hyn a ysgwyddir wrth gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio presennol. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu costau wrth i ni symud tuag at weithredu'r drefn newydd yn raddol.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi. Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych chi gwestiynau pellach am y Bil.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.